

Gwasanaeth Cyngtori Cyswllt Ffermio

...cefnogi datblygiad busnes cynaliadwy

...gwella perfformiad economaidd ac amgylcheddol



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
ryfel Ddiabrysgo Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardalau Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Cynnwys

Cyflwyniad i'r Gwasanaeth Cyngori	3
Sut i gofrestru	5
Meini prawf cymhwyso'r Gwasanaeth Cyngori	6
Cynllunio busnes a chategorïau technegol	7
A ydych chi'n barod i ymgeisio?	14
Dewis eich llwybr ymgeisio	15
Cysylltwch â ni	20
Cronfa wybodaeth	20

Tudalen

Cyflwyniad i'r Gwasanaeth Cyngori

...cefnogi datblygiad busnes cynaliadwy, gwella perfformiad economaidd ac amgylcheddol

Mae **Gwasanaeth Cyngori Cyswllt Ffermio** yn darparu cyngor cymorthdaledig, annibynnol, cyfrinachol ac wedi'i deilwra ar gyfer:

- busnesau fferm
- busnesau coedwigaeth
- busnesau bach a chanolig (BBaCh) yn y sector bwyd

Ein nod yw sicrhau eich bod yn:

- elwa o gefnogaeth busnes a/neu gyngor technegol, wedi'i deilwra i anghenion eich busnes
- lleihau costau trwy gynyddu effeithlonrwydd ar draws pob maes o'ch busnes
- meincodi eich perfformiad ac yn gweithio tuag at gynydd a thwf
- adnabod meysydd i wella a chanfod atebion i broblemau

Mae'r Gwasanaeth Cyngori ar gael ar sail un-i-un.

Mae'r cyngor ar sail 'unigolyn' wedi'i ariannu 80% hyd at uchafswm o €1500 (ewro) am bob achos o gyngor ar gyfer busnes sydd wedi cofrestru.

Mae hefyd ar gael ar gyfer 'grwpiau' o unigolion sy'n dymuno cydweithio a mynd i'r afael â'r un pynciau neu bynciau tebyg.

Mae'r elfen o gyngor ar sail 'grŵp' wedi'i ariannu 100% hyd at uchafswm o €1500 (ewro) am bob aelod o'r grŵp. Mae'n rhaid i bob aelod o'r grŵp fod wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio.

...gyda chi bob cam – ar y ffôn, wyneb i wyneb, ar lein

Mae'r llyfryn gwybodaeth hwn yn cynnig trosolwg o Wasanaeth Cyngori Cyswllt Ffermio a sut all fod o fudd i agweddau technegol, busnes, amgylcheddol ac ariannol eich busnes.

Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r meini prawf cymhwysedd ac arweiniad ar y camau sydd angen eu cymryd cyn i chi allu ymgeisio.

Mae pum llwybr ymgeisio ar gyfer y Gwasanaeth Cyngori. Bydd y llyfryn hwn yn eich cynorthwyo i ddewis yr un mwyaf addas ar gyfer eich busnes. Ceir proses cam wrth gam ar gyfer pob llwybr ar dudalennau 15 i 19.

Gobeithiwn y bydd yr wybodaeth yn ddefnyddiol, ond os oes angen gwybodaeth bellach arnoch, mae cymorth ar gael.

- Ffoniwch ein **Canolfan Wasanaeth** ar **08456 000 813**
- Cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Lleol
- Cysylltwch ag un o'r cynghorwyr sydd wedi'u cymeradwyo gan Cyswllt Ffermio
- Ewch i **www.llyw.cymru/cyswlltffermio** i ganfod manylion cyswllt ar gyfer yr uchod, manylion pellach ynglŷn â'r Gwasanaeth Cyngori, ynghyd ag arweiniad y gellir ei lawr lwytho a fydd o gymorth i chi gyda'ch cais.

Sut i gofrestru

Mae cofrestru ar gyfer unigolion cymwys yn broses sydyn a syml.

➔ Ar lein – ewch i **www.llyw.cymru/cyswlltffermio**

➔ Dros y ffôn – ffoniwch ein **Canolfan Wasanaeth** ar **08456 000 813**

Bydd angen i chi ddarparu:

- Eich Rhif Cyfeirnod Cwsmer (CRN) a'ch Rhif Daliad (CPH) os yn berthnasol.
- Cyfeiriad e-bost unigol ar gyfer pob person sy'n ymwneud â'r busnes sy'n dymuno cael mynediad at y gwasanaethau.

Os oes angen cefnogaeth neu gyngor ychwanegol arnoch, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Lleol – mae manylion cyswllt ar gael ar ein gwefan.

*Bydd angen i bawb a gofrestrodd gyda'r rhaglen
Cyswllt Ffermio blaenorol ail-gofrestru.*

Meini prawf cymhwysedd y Gwasanaeth Cyngori

...cyrraedd mwy o unigolion, cefnogi mwy o fusnesau

Categori busnes (wedi'i gadarnhau wrth gofrestru)	Gwasanaeth Cyngori – lefel y gefnogaeth sydd ar gael
• Busnes fferm • Busnes Coedwigaeth • Newydd Ddyfodiaid • Systemau ffermio/coedwigaeth arbenigol dros 550 awr o lafur cyffredinol bob blwyddyn	Pedwar achos o gefnogaeth cyngori dros gyfnod Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020
• Systemau ffermio/coedwigaeth arbenigol dan 550 awr o lafur cyffredinol bob blwyddyn	Un achos o gefnogaeth cynllunio busnes dros gyfnod Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020
• Busnes bwyd	Un achos o gefnogaeth cynllunio busnes ac un achos o gyngor Technegol dros gyfnod Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

Telerau ac amodau (yn berthnasol i bob un o'r categorïau busnes uchod)

Yn unol â thelerau Gwasanaeth Cyngori Cyswllt Ffermio, unwaith yn unig y gellir derbyn cyngor dan gategori Technegol trwy gydol y rhaglen.

Gellir derbyn cyngor Cynllunio Busnes (a chyngor Cynllunio Busnes ar gyfer Newydd Ddyfodiaid) ddwywaith, gan ddefnyddio ffigurau blwyddyn ariannol wahanol i'r data a ddefnyddir yn y cynllun busnes cyntaf ar gyfer yr ail achos.

Mae'r elfen grŵp ar gyfer y Gwasanaeth Cyngori ar gael i grwpiau o ddau yn achos menter ar y cyd a rhwng tri ac wyth person ar gyfer cyngor technegol mewn grŵp.

Bydd angen i aelodau grŵp enwi pob unigolyn arall o fewn eu grŵp wrth gwblhau eu ffurflenni cais unigol ar gyfer y Gwasanaeth Cyngori.

Categorïau cynllunio busnes a thechnegol

...eich cynorthwyo i gyflawni eich nodau busnes a'ch amcanion technegol

Mae'r rhestr isod yn amlinellu'r categorïau cyngor busnes a chefnogaeth dechnegol sydd ar gael fel rhan o'r Gwasanaeth Cyngori.

Gobeithio y bydd y disgrifiadau byr yn eich galluogi i wneud penderfyniadau deallus ynglŷn â pha gategori/categorïau fyddai o fwyaf o fudd i'ch busnes, ond os oes angen gwybodaeth neu arweiniad pellach, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu lleol.

CATEGORÏAU BUSNES

Mae Cyswllt Ffermio yn darparu pecyn o gefnogaeth wedi'i deilwra ar gyfer eich anghenion a fydd yn eich cynorthwyo i wneud penderfyniadau deallus ynglŷn â...

- nodau busnes yn y tymor byr a'r tymor hir
- cynllunio ariannol
- cynllunio gweithredol
- dulliau arloesol neu fwy effeithlon o weithio
- eich strategaeth gwerthu a marchnata

Gallech ystyried lawr lwytho ein templed cynllun busnes fel man cychwyn, neu efallai yr hoffech fynychu un o'n gweithdai cynllunio busnes. Ewch i www.llyw.cymru/cyswlltffermio am fwy o fanylion ynglŷn â'r cymorth sydd ar gael ac er mwyn canfod manylion cyswllt eich Swyddog Datblygu lleol.



CYNLLUNIO BUSNES

(hefyd ar gael fel cyngor grŵp ar gyfer mentrau ar y cyd)

Mae'r categori hwn yn darparu cyngor cynllunio busnes cynhwysfawr sy'n cynnwys y fenter gyfan. Bydd y categori hwn yn rhoi darlun clir o broffil presennol eich busnes, gan feincnodi eich safle presennol. Byddwch yn deall eich cryfderau a'ch gwendidau ac yn gwybod beth y dylech fod yn anelu ato yn ymarferol er mwyn parhau i fod yn gynaliadwy, effeithiol a phroffidiol yn y blynyddoedd sydd i ddod.

CYNLLUNIO BUSNES AR GYFER NEWYDD DDYFODIAID

Yn debyg i'r cyngor ar gael dan y categori cynllunio busnes (SBP), mae'r categori hwn yn darparu cyngor cynllunio busnes cynhwysfawr sy'n cynnwys y fenter gyfan. Bydd y categori hwn yn rhoi darlun clir o broffil presennol eich busnes, gan feincnodi eich safle presennol. Byddwch yn deall eich cryfderau a'ch gwendidau ac yn gwybod beth y dylech fod yn anelu ato yn ymarferol er mwyn parhau i fod yn gynaliadwy, effeithiol a phroffidiol yn y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r categori hwn hefyd yn canolbwyntio ar anghenion a gofynion penodol newydd ddyfodiaid i'r diwydiant.

CATEGORIÂU TECHNEGOL

PERFFORMIAD A RHEOLAETH DA BYW

Er mwyn sicrhau'r perfformiad gorau gan eich da byw, mae angen i chi fynd i'r afael ag ystod o faterion gan gynnwys iechyd a lles anifeiliaid. Mae mesur a chofnodi perfformiad yn allweddol ar gyfer hyn.

Bydd y categori hwn yn darparu cyngor ynglŷn â'r adnoddau a'r technegau cydnabyddedig gorau i'ch cynorthwyo i gyflawni'r canlyniadau gorau posib o'ch da byw (gan gyfuno EBV, cyfraddau stocio, opsiynau gaeafu, cynllunio porthiant, adeiladau, a nifer o faterion pwysig eraill).



RHEOLAETH GLASWELLTIR A CHNYDAU

Ystyried eich patrymau glaswelltir a chnydau; mae mynd i'r afael â rheolaeth pridd a maeth a rheoli tail buarth yn hanfodol os ydych yn anelu at redeg menter sy'n perfformio gyda'r gorau, gyda'r canlyniadau perfformiad uchaf. Bydd y categori hwn yn eich cynorthwyo i wneud y defnydd gorau o'ch adnoddau ac yn mynd i'r afael â'r holl faterion uchod, yn ogystal â darparu cyngor NVZ ac adnabod unrhyw beryglon amgylcheddol.

RHEOLAETH COETIR

Bydd y categori cynllunio a rheoli coetir hwn yn ystyried holl agweddau ariannol rheoli coetiroedd proffidiol, ac yn cynnwys cyngor ynglŷn â grantiau sydd ar gael, cyfundrefnau ar gyfer taliadau ar gyfer gwasanaethau Ecosystem a nifer o faterion sy'n ymwneud â chynlluniau Cod Carbon Coetiroedd.

CYDYMFFURFIAETH CYNLLUN RHEOLAETH COETIR GYDA SAFONAU COEDWIGAETH Y DU

Bydd cyngor ar gael trwy'r categori hwn yn sicrhau bod eich cynlluniau a'ch cytundebau'n ateb gofynion Safon Coedwigaeth y DU a lle bo'n briodol, bydd eich cynghorydd yn trafod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar eich rhan.



GARDDWRIAETH

Os ydych yn ystyried, neu eisoes yn ymwneud ag un ai garddwriaeth gonfensiynol neu organig, bydd cyngor o fewn y categori hwn yn eich galluogi i roi egwyddorion cynaliadwyedd ar waith ac i asesu a lleihau effaith amgylcheddol cynhyrchu cnydau gan gynnwys llygredd gwasgaredig, allyriadau Nwyon Tŷ Gwyr, addasu i newidiadau hinsoddol a bioamrywiaeth. Bydd cyngor yn ymwneud â chylchdroi cnydau; rheoli afiechydon a phlâu; cynaeafu; materion amrywiaeth; cyfateb cnydau i'ch math o bridd a materion cyflenwi/marchnata.

CYNHYRCHU ORGANIG

I wneud y gorau o gynhyrchu organig, mae angen i chi fod yn ymwybodol o'r holl safonau organig a chytundebau Cynlluniau Ffermio Organig.

Bydd cyngor o fewn y categori hwn yn sicrhau eich bod yn deall y rheolaeth tir/cnydau/da byw sydd arnoch ei angen.

Gall y rhai sy'n newydd i'r sector dderbyn cyngor ynglŷn â datblygu strategaeth trawsnewid organig. Gall busnesau sydd wedi sefydlu a busnesau newydd dderbyn cyngor am oblygiadau ariannol yn ogystal â chynghor arbenigol ynglŷn â chreu strategaeth farchnata.

AMAETH-AMGYLCHEDD, GWASANAETHAU ECOSYSTEMAU A BIOAMRYWIAETH

Bydd y categori rheoli adnoddau naturiol hwn yn eich cynorthwyo i adnabod, diogelu a rheoli cynefinoedd gan gynnwys planhigion ac anifeiliaid.

Byddwch yn derbyn cyngor ynglŷn â sut i ddiogelu a chyfoethogi rhywogaethau newydd a phresennol ar y tir, mewn dŵr ac mewn adeiladau fferm.

Byddwch hefyd yn gallu adnabod a rheoli safleoedd o ddiddordeb hanesyddol, archeolegol neu bensaernïol, gyda ffocws ar werth bioamrywiaeth a diogelu'r amgylchedd amaethyddol.

ARALLGYFEIRIO AC YCHWANEGU GWERTH

Gallai menter arallgyfeirio arwain at well dulliau o weithio neu ffrwd incwm ychwanegol.

Bydd y categori hwn yn eich cynorthwyo i asesu dichonolrwydd eich syniad, a byddwch yn derbyn cyngor ynglŷn ag agweddau gan gynnwys cynllunio ariannol a busnes; rheoliadau; prosesau deddfwriaethol; ymchwil i'r farchnad ac elfennau eraill o'r gymysgedd gyflenwi a marchnata.



PROESU COED AC YCHWANEGU GWERTH

Bydd y categori hwn yn darparu cefnogaeth fusnes i fusnesau coedwigaeth/ffermio sy'n dymuno prosesu coed un ai fel menter ychwanegol neu drwy arallgyfeirio i mewn i brosesu; contractio; tyfu a marchnata.

Bydd yn ymdrin â chynllunio ariannol yn ogystal â busnes.

Bydd y categorïau cyngor ychwanegol canlynol hefyd ar gael yn fuan:

- Technegol - Cynllunio iechyd anifeiliaid
- Technegol - Cyngor milfeddygol arbenigol
- Technegol - Effeithlonrwydd ynni a dŵr
- Technegol - Cynhyrchu ynni adnewyddadwy

Gall busnesau bach a chanolig (BBaCh) gweithgynhyrchu bwyd sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd gofynnol gael mynediad at gyngor:

- Cynllunio Busnes ar gyfer BBaCh Bwyd
- Technegol - Ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd prosesu (Ar gael yn fuan)

A ydych chi'n barod i wneud cais?

Cyn gwneud cais ar gyfer cyngor cynllunio busnes neu gyngor technegol sydd ar gael fel rhan o Wasanaeth Cyngori Cyswllt Ffermio, bydd angen i chi:

- gofrestru gyda Cyswllt Ffermio - bydd angen i bob unigolyn sy'n gwneud cais ar gyfer y Gwasanaeth Cyngori fod wedi derbyn e-bost neu lythyr gan Cyswllt Ffermio'n cadarnhau eu bod wedi cofrestru.
- wirio eich cymhwysedd ar gyfer y Gwasanaeth Cyngori (gweler tudalen 6).
- ddewis y llwybr ymgeisio sy'n fwyaf addas ar eich cyfer chi neu eich grŵp (gweler tudalennau 15 i 19).



Dewis eich llwybr ymgeisio ar gyfer y Gwasanaeth Cyngori

Mae pum llwybr gwahanol ar gael ar gyfer ymgeisio ar gyfer y Gwasanaeth Cyngori. Ystyriwch bob un o'r pum opsiwn, ac yna dewiswch yr un sydd fwyaf addas ar eich cyfer chi a dilynwch y broses gam wrth gam syml sy'n berthnasol.

Llwybr 1

Mae gen i Gynllun Busnes a gwblhawyd trwy'r Rhaglen Cyswllt Ffermio Blaenorol (2007 - 2013)

1. Cwblhewch Gynllun Gweithredu sy'n amlinellu eich amcanion allweddol a'r gweithredoedd a osodwyd yn eich Cynllun Busnes. Gall fod yn ddefnyddiol i chi lawr lwytho ein templed Cynllun Gweithredu oddi ar ein gwefan www.llyw.cymru/cyswlltffermio.
2. Dylid e-bostio eich Cynllun Gweithredu cyflawn at:
cyswlltffermio@menterabusnes.co.uk
3. Byddwn yn eich hysbysu pan fydd eich Cynllun Gweithredu wedi cael ei ddilysu.
4. Darganfyddwch pa gategoriâu cyngor y gallwch ymgeisio amdanynt fel rhan o'r Gwasanaeth Cyngori i'ch cynorthwyo i gyflawni'r amcanion busnes a osodwyd yn eich Cynllun Gweithredu. Gweler tudalennau 7 i 13.
5. Ystyriwch pa gwmnïau wedi'u cymeradwyo gan y Gwasanaeth Cyngori fyddai'n gallu darparu'r arbenigedd a'r gwasanaeth sydd arnoch ei angen yn y modd gorau posib. Ceir rhestr gyda manylion cyswllt a meysydd gwaith arbenigol ar y wefan www.llyw.cymru/cyswlltffermio. Byddem yn eich cyngori i gysylltu â mwy nag un cwmni cyn gwneud eich penderfyniad. Yn ymyl y rhestr hon, fe welwch ganllaw 'Dewis Cyngorydd' a allai fod o gymorth i chi allu gwneud y penderfyniad cywir.
6. Cwblhewch a chyflwynwch eich ffurflen gais Gwasanaethau Cyngori ar lein.
7. Bydd eich Swyddog Datblygu Lleol yn gallu darparu cefnogaeth ac arweiniad parhaus i chi yn ôl yr angen. Gallant hefyd eich cynorthwyo i adnabod gofynion busnes ychwanegol a'ch cyfeirio tuag at wasanaethau eraill Cyswllt Ffermio.
8. Mae'n rhaid i chi dderbyn e-bost neu lythyr gan Cyswllt Ffermio yn cymeradwyo eich cais cyn comisiynu eich ymgynghorydd.

Llwybr 2

Mae gen i Gynllun Busnes a drefnais yn breifat (*h.y. nid trwy Cyswllt Ffermio*) neu gynllun yr wyf wedi'i ddrafftio fy hun

1. Archebwch le ar un o'n Cymorthfeydd Adolygu Busnes sydd wedi'u hariannu'n llawn er mwyn gallu dilysu eich Cynllun Busnes a chwblhau Cynllun Gweithredu. Cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu i ganfod dyddiadau a lleoliadau yn eich ardal chi.
2. Dylid e-bostio eich Cynllun Gweithredu cyflawn at:
cyswlltffermio@menterabusnes.co.uk
3. Byddwn yn eich hysbysu pan fydd eich Cynllun Gweithredu wedi cael ei ddilysu.
4. Darganfyddwch pa gategorïau cyngor y gallwch ymgeisio amdanynt fel rhan o'r Gwasanaeth Cyngori i'ch cynorthwyo i gyflawni'r amcanion busnes a osodwyd yn eich Cynllun Gweithredu. *Gweler tudalennau 7 i 13.*
5. Ystyriwch pa gwmnïau wedi'u cymeradwyo gan y Gwasanaeth Cyngori fyddai'n gallu darparu'r arbenigedd a'r gwasanaeth sydd arnoch ei angen yn y modd gorau posib. Ceir rhestr gyda manylion cyswllt a meysydd gwaith arbenigol ar y wefan www.llyw.cymru/cyswlltffermio. Byddem yn eich cynghori i gysylltu â mwy nag un cwmni cyn gwneud eich penderfyniad. Yn ymyl y rhestr hon, fe welwch ganllaw 'Dewis Cyngorydd' a allai fod o gymorth i chi allu gwneud y penderfyniad cywir.
6. Cwblhewch a chyflwynwch eich ffurflen gais Gwasanaethau Cyngori ar lein.
7. Bydd eich Swyddog Datblygu Lleol yn gallu darparu cefnogaeth ac arweiniad parhaus i chi yn ôl yr angen. Gallant hefyd eich cynorthwyo i adnabod gofynion busnes ychwanegol a'ch cyfeirio tuag at wasanaethau eraill Cyswllt Ffermio.
8. Mae'n rhaid i chi dderbyn e-bost neu lythyr gan Cyswllt Ffermio yn cymeradwyo eich cais cyn comisiynu eich ymgynghorydd.

Llwybr 3

Rydw i eisiau cynhyrchu fy nghynllun busnes fy hun

1. Ewch i www.llyw.cymru/cyswlltffermio i lawr lwytho ein templed cynllun busnes.
2. Archebwch le ar un o'n Cymorthfeydd Adolygu Busnes sydd wedi'u hariannu'n llawn er mwyn gallu dilysu eich Cynllun Busnes a chwblhau Cynllun Gweithredu. Cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu i ganfod dyddiadau a lleoliadau yn eich ardal chi.
3. Dylid e-bostio eich Cynllun Gweithredu cyflawn at:
cyswlltffermio@menterabusnes.co.uk
4. Byddwn yn eich hysbysu pan fydd eich Cynllun Gweithredu wedi cael ei ddilysu.
5. Darganfyddwch pa gategorïau cyngor y gallwch ymgeisio amdanynt fel rhan o'r Gwasanaeth Cyngori i'ch cynorthwyo i gyflawni'r amcanion busnes a osodwyd yn eich Cynllun Gweithredu. *Gweler tudalennau 7 i 13.*
6. Ystyriwch pa gwmnïau wedi'u cymeradwyo gan y Gwasanaeth Cyngori fyddai'n gallu darparu'r arbenigedd a'r gwasanaeth sydd arnoch ei angen yn y modd gorau posib. Ceir rhestr gyda manylion cyswllt a meysydd gwaith arbenigol ar y wefan www.llyw.cymru/cyswlltffermio. Byddem yn eich cynghori i gysylltu â mwy nag un cwmni cyn gwneud eich penderfyniad. Yn ymyl y rhestr hon, fe welwch ganllaw 'Dewis Cyngorydd' a allai fod o gymorth i chi allu gwneud y penderfyniad cywir.
7. Cwblhewch a chyflwynwch eich ffurflen gais Gwasanaethau Cyngori ar lein.
8. Bydd eich Swyddog Datblygu Lleol yn gallu darparu cefnogaeth ac arweiniad parhaus i chi yn ôl yr angen. Gallant hefyd eich cynorthwyo i adnabod gofynion busnes ychwanegol a'ch cyfeirio tuag at wasanaethau eraill Cyswllt Ffermio.
9. Mae'n rhaid i chi dderbyn e-bost neu lythyr gan Cyswllt Ffermio yn cymeradwyo eich cais cyn comisiynu eich ymgynghorydd.

Llwybr 4

Mae angen cefnogaeth Gwasanaeth Cyngori arnaf i gynhyrchu cynllun busnes

1. Gwiriwch pa gategori o gyngor cynllunio busnes sy'n berthnasol i chi.
Gweler tudalennau 7 i 13.
2. Ystyriwch pa gwmnïau wedi'u cymeradwyo gan y Gwasanaeth Cyngori fyddai'n gallu darparu'r arbenigedd a'r gwasanaeth sydd arnoch ei angen yn y modd gorau posib. Ceir rhestr gyda manylion cyswllt a meysydd gwaith arbenigol ar y wefan www.llyw.cymru/cyswlltffermio. Byddem yn eich cyngori i gysylltu â mwy nag un cwmni cyn gwneud eich penderfyniad. Yn ymyl y rhestr hon, fe welwch ganllaw 'Dewis Cyngorydd' a allai fod o gymorth i chi allu gwneud y penderfyniad cywir.
3. Cwblhewch a chyflwynwch eich ffurflen gais Gwasanaethau Cyngori ar lein.
4. Bydd eich Swyddog Datblygu Lleol yn gallu darparu cefnogaeth ac arweiniad parhaus i chi yn ôl yr angen. Gallant hefyd eich cynorthwyo i adnabod gofynion busnes ychwanegol a'ch cyfeirio tuag at wasanaethau eraill Cyswllt Ffermio.
5. Mae'n rhaid i chi dderbyn e-bost neu lythyr gan Cyswllt Ffermio yn cymeradwyo eich cais cyn comisiynu eich ymgynghorydd.

Llwybr 5

Mae grŵp o unigolion yn chwilio am gefnogaeth Gwasanaeth Cyngori yn ymwneud â'r un materion neu faterion tebyg

1. Bydd angen i chi gytuno p'un ai yw eich grŵp yn ymgeisio ar gyfer cyngor cynllunio busnes neu gyngor Technegol:
 - **Cyngor Cynllunio Busnes** – os ydynt yn ymgeisio ar gyfer cyngor cynllunio busnes (ar gael ar gyfer mentrau ar y cyd yn unig), unwaith y bydd eich grŵp wedi dewis y cyngorydd yr hoffent weithio â hwy, bydd pob aelod o'ch grŵp yn barod i gyflwyno cais.
 - **Cyngor Technegol** – Wedi i chi ddewis categori/categoriâu cyngor Technegol sydd ei angen ar y grŵp (*Gweler tudalennau 7 i 13*), bydd angen i bob aelod o'r grŵp gynhyrchu Cynllun Gweithredol cyfredol sy'n amlinellu amcanion allweddol pob aelod ynghyd â'r gweithgareddau arfaethedig. Mae'n bosib bod un ganddynt eisoes fydd yn addas. Os nad oes un ganddynt eisoes, gallwch lawr lwytho ein templed Cynllun Gweithredu oddi ar ein gwefan.
2. Dylid ehostio Cynlluniau Gweithredu cyflawn at:
cyswlltffermio@menterabusnes.co.uk
3. Bydd pob aelod yn cael eu hysbysu pan fydd eu Cynllun Gweithredu wedi cael ei ddilysu.
4. Ystyriwch pa gwmnïau wedi'u cymeradwyo gan y Gwasanaeth Cyngori fyddai'n gallu darparu'r arbenigedd a'r gwasanaeth sydd arnoch ei angen yn y modd gorau posib. Ceir rhestr gyda manylion cyswllt a meysydd gwaith arbenigol ar y wefan: www.llyw.cymru/cyswlltffermio. Byddem yn eich cyngori i gysylltu â mwy nag un cwmni cyn gwneud eich penderfyniad. Yn ymyl y rhestr hon, fe welwch ganllaw 'Dewis Cyngorydd' a allai fod o gymorth i chi allu gwneud y penderfyniad cywir.
5. Yna bydd angen i bob aelod o'r grŵp gwblhau a chyflwyno eu ffurflenni cais Gwasanaeth Cyngori eu hunain ar lein.
6. Gall aelodau'r grŵp gysylltu â'u Swyddog Datblygu Lleol fydd yn gallu cynnig cefnogaeth ac arweiniad parhaus yn ôl y galw; cynorthwyo i adnabod unrhyw anghenion busnes eraill a'u cyfeirio at wasanaethau Cyswllt Ffermio eraill.
7. Mae'n rhaid i bob aelod o'r grŵp dderbyn e-bost neu lythyr gan Cyswllt Ffermio yn cymeradwyo eich cais cyn comisiynu eich ymgynghorydd.

Sut i gysylltu â ni

Mae ein tîm o Swyddogion Datblygu Lleol ar gael i roi cyngor ac arweiniad i chi ynglŷn â sut all Cyswllt Ffermio fod o fudd i chi a'ch busnes.

Byddant hefyd yn darparu cefnogaeth ynglŷn â sut i gael mynediad at ac elwa o'r amrediad o wasanaethau. Mae manylion cyswllt ar gyfer y swyddogion datblygu ar gael ar ein gwefan.

➔ **Gwefan:** www.llyw.cymru/cyswlltffermio

➔ **Ffôn:** Canolfan Wasanaeth - **08456 000 813**

➔ **E-bost:** cyswlltffermio@menterabusnes.co.uk

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter/Facebook

[Facebook.com/FarmingConnect](https://www.facebook.com/FarmingConnect)

[@FarmingConnect](https://twitter.com/FarmingConnect)

Mae Canolfan Wasanaeth Cyswllt Ffermio ar agor rhwng 9yb a 5yp o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio gwyliau cyhoeddus.

Cronfa Wybodaeth

Ceir mwy o wybodaeth ynglŷn â'r amrediad eang o wasanaethau Cyswllt Ffermio ar ein gwefan, ynghyd â gwybodaeth am yr amrywiaeth o ddigwyddiadau a chyfleoedd trosglwyddo gwybodaeth fydd a gynhelir drwy gydol y flwyddyn www.llyw.cymru/cyswlltffermio